

Aseiad o Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Teitl: Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad		Rhif Cyfeirnod yr Aseiad <i>(I'w llenwi gan Uned y Gymraeg):</i>			
Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:					
Dyddiad:					
Arweinydd polisi:					
Manylion cyswllt:					
Math o Raglen/Prosiect					
<input type="checkbox"/> Polisi		<input type="checkbox"/> Prosiect neu raglen			
<input checked="" type="checkbox"/> Deddfwriaeth		<input type="checkbox"/> Ymchwil, gwerthusiad			
<input type="checkbox"/> Grant		<input type="checkbox"/> Gwasanaethau			
<input type="checkbox"/> Newid busnes		<input type="checkbox"/> Contractau, tendrau			
<input type="checkbox"/> Seilwaith					
<input type="checkbox"/> Adeiladu, Cyfalaf					
<input type="checkbox"/> TGCh					
<input type="checkbox"/> Arall (Nodwch isod)					
<input type="text"/>					
Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect?					
Oes yn llai na £25k, nid oes angen Aseiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).					
O dan £25k	£25 - £49k	£50 - £249k	£250k - £1miliwn	Dros £1miliwn	
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	
O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg?					
<input type="text"/>					
Pa mor hir y disgwyli'r rhaglen/prosiect redeg?					
Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Dros 10 mlynedd	Anhysbys
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

--	--	--	--	--	--

Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:

Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymraeg yn ymwneud â'r cynigion yn y Papur Gwyn: Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad, a gyhoeddwyd at ddibenion ymgynghori ar 31 Ionawr 2017, a'r cynigion a gafodd gefnogaeth eang yn y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft a gyhoeddwyd yn 2015 (y cyfeirir ato fel y Bil Drafft gydol y ddogfen).

Mae'r Papur Gwyn hwn yn amlinellu perthynas newydd rhwng llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol. Un lle mae'r naill yn deall y llall ac yn cydnabod rolau a buddiannau ei gilydd, a lle mae pob partner yn cael cyfle i sicrhau'r effaith gadarnhaol fwyaf drwy weithio gyda dinasyddion ar agendâu sydd wedi'u cytuno gan y naill a'r llall. Mae'n nodi dull newydd o ddiwygio sy'n canolbwyntio ar fwy o weithio'n rhanbarthol. Mae'n gosod fframwaith ar gyfer gwaith llywodraeth leol, gan gynnig dewislen o opsiynau y gall llywodraeth leol eu defnyddio, ar sail eu hamgylchiadau lleol a'u cryfderau. Mae hefyd yn tynnu sylw at y cynigion hynny a fu'n destun ymgynghoriad eisoes ac a gafodd gefnogaeth eang ac rydym yn bwriadu eu rhoi ar waith.

Mae'r Papur Gwyn, Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad, yn dilyn tri Phapur Gwyn cynharach, Deddf y Cynulliad a Bil Drafft.

Lansiwyd y Papur Gwyn cyntaf, *Diwygio Llywodraeth Leol*, ym mis Gorffennaf 2014. Roedd yn amlinellu ymateb Llywodraeth Cymru i ganfyddiadau'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â llywodraeth leol. Roedd yn cynnig diwygio ar raddfa fawr drwy gyfrwng dau ddarn o ddeddfwriaeth. Mae'r Ddeddf gyntaf, Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015, yn rhoi paratodau ar waith ar gyfer rhaglen o gamau uno a diwygio llywodraeth leol, megis sefydlu Pwyllgorau Pontio.

Lansiwyd yr ail Bapur Gwyn, *Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus*, ym mis Hydref 2014. Roedd yn cynnig sefydlu Comisiwn i ddatblygu a lledaenu arferion da yn nhrefniadau'r gweithlu ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Sefydlwyd y Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus ar sail anstatudol yn hydref 2015.

Cyhoeddwyd y trydydd Papur Gwyn, *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol*, ym mis Chwefror 2015. Roedd yn canolbwyntio ar ddatblygiad mewnol cynghorau i gyflenwi ac ategu'r diwygiadau strwythurol a amlinellwyd yn y Papur Gwyn cyntaf, *Diwygio Llywodraeth Leol*. Roedd yn cynnig amrywiaeth o ddiwygiadau sylfaenol i sicrhau perfformiad da, democratiaeth gadarn, a llywodraethu da a darpariaeth effeithiol ar gyfer cymunedau.

Y rhain, ynghyd â'r ddarpariaeth ar gyfer uno awdurdodau lleol, oedd sail y Bil Drafft. Er i fwyafrif y darpariaethau yn y Bil Drafft, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2015, gael eu croesawu ac maent yn cael eu cynnig fel rhan o unrhyw Fil Llywodraeth leol yn y dyfodol, ni chafodd yr opsiwn arfaethedig i uno ddigon o gefnogaeth wleidyddol.

Mae'r Papur Gwyn diweddaraf yn amlinellu dull gorfodol a systematig ar gyfer gweithio'n rhanbarthol, ar yr un pryd â chadw'r 22 o awdurdodau lleol¹ cyfredol fel sail ddemocrataidd llywodraeth leol.

Pe bai'r ymgynghoriad hwn yn arwain at baratoi Bil, bydd yr effaith bosibl ar y Gymraeg yn sgil hynny

¹ mae awdurdodau lleol yn cyfeirio at y 22 cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol gydol y ddogfen hon.

yn cael ei hystyried drwy gydol y broses ddrafftio. Bydd fersiwn wedi'i diweddarau o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr ag unrhyw Fil sy'n cael ei baratoi yn y dyfodol.

CAM 1: CYNLLUNIO

Beth yw nodau ac amcanion y polisi? Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?

Mae'r Papur Gwyn yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o berthynas newydd rhwng llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol. Un lle mae'r naill yn deall y llall ac yn cydnabod rolau a buddiannau ei gilydd.

Mae'r Papur Gwyn yn pwysleisio ein hymrwymiad parhaus i ddiwygiadau sylfaenol er mwyn sicrhau perfformiad cryf, democratiaeth gadarn, llywodraethu da a darpariaeth effeithiol ar gyfer cymunedau.

Mae'r Papur Gwyn yn ceisio adeiladu ar allu a chapasiti cyfredol awdurdodau lleol, drwy gyfrwng ystod o ddiwygiadau. Nod trefniadau rhanbarthol newydd fyddai cryfhau'r ffordd mae awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau strategol ac yn darparu gwasanaethau, a fydd yn cael effaith ar siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg eu hiaith a'r Gymraeg. Bydd llawer o ganlyniadau eraill yn cael eu pennu gan awdurdodau lleol eraill, ac mae'n bwysig i ni beidio ag atal y penderfyniadau hynny, oherwydd caiff yr effeithiau eu pennu ymhen hir a hwyr.

Er nad yw'r Papur Gwyn yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau sy'n canolbwyntio'n unswydd ar siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg eu hiaith, neu'r Gymraeg, nod y darpariaethau yw dod â budd i holl gymunedau Cymru. Mae crynodeb o'r cynigion isod.

Trefniadau Rhanbarthol

- Creu llywodraeth leol fwy cadarn a chynaliadwy. Mae cynyddu gallu a meithrin cadernid yn hanfodol os yw awdurdodau lleol am ymateb i'r heriau ariannol a demograffeg sy'n eu hwynebu.
- Ystyried amrywiaeth o drefniadau rhanbarthol, gan ystyried nifer o ffactorau a gwerthuso manteision ac anfanteision yr opsiynau hyn.
- Dosbarthu adnoddau prin neu arbenigol yn effeithiol ledled llywodraeth leol.

Gwasanaeth a Rennir

- Bwrw rhagddi gyda gwasanaethau cymorth a rennir a mynd ati i wneud cynnydd cyflymach a mwy treiddgar yn y maes hwn, gan barhau i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflenwi hyd yn oed yn fwy effeithlon ynghyd â sicrhau manteision ehangach eraill.
- Ystyriaeth ehangach o'r potensial i reoli a defnyddio asedau'r sector cyhoeddus yn well drwy gynllunio a llywodraethu rhanbarthol.
- Dull cydweithredol, mwy rhagweithiol, o reoli asedau yn sector cyhoeddus Cymru

drwyddo draw.

Uno Gwirfoddol

- Galluogi awdurdodau lleol i fwrw ymlaen i uno'n wirfoddol.
- Cynorthwyo awdurdodau lleol i ddatblygu eu hachosion o blaid uno, a helpu i gysoni achosion arfaethedig o uno gydag unrhyw drefniadau gorfodol a systematig. Byddai hyn yn cael ei wneud ar y ddealltwriaeth y byddai sail resymegol ac amgylchiadau unrhyw achos o uno gwirfoddol yn unigryw i'r awdurdodau lleol sy'n uno.
- Dylai unrhyw gynnig i uno'n wirfoddol ystyried cadernid y sefydliad wrth fynd ymlaen, cyflenwi gwasanaethau'n effeithiol a sefyllfa ariannol arfaethedig endid y dyfodol. Rhaid iddo nodi digon o fanteision i ddinasyddion a chymunedau i gyfiawnhau'r uno. Wrth wneud hynny, rhaid ystyried unrhyw ganllawiau sydd wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

Llywodraethu ac Atebolrwydd

- Bydd model llywodraethu rhanbarthol yn golygu bod rhaid i'r penderfyniadau a wneir fod er lles gorau pobl ar draws y rhanbarth.
- Sicrhau bod Aelodau Etholedig yn parhau i fod wrth galon y broses benderfynu a chraffu.
- Bydd angen craffu'n briodol ar drefniadau rhanbarthol i sicrhau perfformiad effeithiol a gwerth am arian, a sicrhau canlyniadau gwell ar lefel ranbarthol.
- Darparu fframwaith clir ar gyfer gwneud trefniadau i ddal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif.
- Fframwaith cyffredin arfaethedig i gefnogi'r gwaith o gyfuno cyllidebau i gefnogi swyddogaethau sy'n cael eu harfer gan Gyd-bwyllgorau Llywodraethu.

Perfformiad a gwelliant

- Parhau i fod wedi ymrwymo i leihau gofynion adrodd ar berfformiad, yn cynnwys cynlluniau, adroddiadau blynyddol a strategaethau. Lleihau lle bo'n bosibl feichiau diangen ar lywodraeth leol.
- Parhau i fod wedi ymrwymo i roi dyletswydd newydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol i hyrwyddo safonau da o ymddygiad gan eu haelodau ac i gydweithredu â Phwyllgorau Safonau wrth gyflawni eu swyddogaethau. Os yw'n briodol, bydd Pwyllgorau Safonau yn clywed achosion o fethiant honedig aelodau i gyflawni dyletswyddau perfformio rhagnodedig, yn ogystal â thorri cod ymddygiad aelodau.
- Fel y cynigir yn y Bil Drafft, bydd gofyn i gyrff archwilio ac adolygu allanol gydweithio'n agosach, i sicrhau eu bod yn llunio trosolwg mwy cyfannol o berfformiad awdurdod lleol drwy drafodaethau 'cymryd stoc'. Bydd gofyn i'r gyrff hyn gydweithredu'n agosach â phwyllgorau craffu mewnol hefyd.
- Bydd gofyn i awdurdodau lleol gynnal proses hunanasesu drylwyr, wedi'i hategu gan

adolygiadau rheolaidd gan gymheiriaid.

- Ymrwymiad i gryfhau rôl Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio
- Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw pŵer i ymyrryd a'r gallu i gomisiynu a'r gallu i gomisiynu adolygiadau annibynnol o lywodraethu a gweithredu ar ganlyniadau'r adolygiadau hynny, os oes pryderon. Mae hyn yn ychwanegol at drefniadau ymyrryd o dan feysydd gwasanaeth penodol .
- Ymrwymiad parhaus i newid trefniadau rheoli perfformiad. Yn amodol ar ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig diddymu Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ar gyfer pob Awdurdod Gwella.

Arwain Ardaloedd Lleol

- Cymryd camau i gynyddu amrywiaeth y rhai sy'n sefyll mewn etholiadau ac annog mwy o gyfranogiad mewn democratiaeth leol.
- Bydd awdurdodau lleol yn cael Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol, i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau'n fwy arloesol.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi strategaethau yn egluro sut gall y cyhoedd ddeall sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a sut gallant gymryd rhan yn y broses.
- Gwneud darlledu cyfarfodydd cyngor yn ofyniad statudol a bydd gofyn i gynghorau ganiatáu i Aelodau fynychu cyfarfodydd y cyngor o bell os oes anawsterau domestig, busnes neu deithio yn eu hatal rhag cyrraedd y prif gyfarfod.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i arweinwyr a meiri etholedig wneud trefniadau i wneud eu hunain yn hygyrch i ryngweithio â'r cyhoedd.
- Bydd trefniadau newydd yn cael eu rhoi ar waith i wneud cyfarfodydd y cyngor yn fwy hygyrch ac agored, yn cynnwys gofynion i'w gwneud hi'n orfodol darlledu cyfarfodydd cyngor.
- Bydd disgwyliadau cliriach o berfformiad Aelodau Etholedig yn cael eu hamlinellu ar ffurf dyletswyddau perfformiad yn cynnwys dyletswyddau i adrodd ar sut maent wedi ymgysylltu â'r cyhoedd. Bydd achosion o dorri'r dyletswyddau hynny yn cael eu hystyried gan Bwyllgorau Safonau.

Cynghorau Cymuned

- Gwneud y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol ar gael i gynghorau cymuned arloesol ac uchelgeisiol sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd ac yn edrych am fwy o ryddid i wasanaethu eu cymunedau.
- Rhoi rhwymedigaeth ar gynghorau cymuned i ystyried eu hanghenion hyfforddi a chynllunio ar eu cyfer, cyhoeddi'r cynllun a'i adolygu'n rheolaidd.
- Sicrhau bod dinasyddion yn cael gwybodaeth reolaidd a bod ganddynt yr hawl i gyflwyno sylwadau ar unrhyw fusnes a wneir mewn cyfarfod cyngor.

Etholiadau a Phleidleisio

- Bwriad i edrych ar sut gellid datblygu un gofrestr electronig sengl i Gymru.
- Ymrwymiad parhaus i symud i dymor pum mlynedd ar gyfer llywodraeth leol, fodd bynnag, wrth wneud hynny, bydd gofyn am fwy o dryloywder ar gyfer y rheini sy'n sefyll mewn etholiadau.
- Galluogi cyngorau yng Nghymru i benderfynu ar system bleidleisio sy'n adlewyrchu orau anghenion eu pobl a chymunedau lleol. Bydd awdurdodau lleol yn gallu penderfynu drostynt eu hunain rhwng y systemau 'Y Cyntaf i'r Felin' neu 'Un Bleidlais Drosglwyddadwy' ar gyfer eu hetholiadau cyngor

Bydd asesiad wedi'i ddiweddarau o'r effaith ar y Gymraeg yn cael ei gyhoeddi gydag unrhyw Fil yn y dyfodol.

Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?

a

Beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?

Mae'r Papur Gwyn yn rhan o'r rhaglen waith Diwygio Llywodraeth Leol, sy'n rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Comisiwn Williams), a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014. Mae opsiynau polisi wedi'u llywio hefyd gan yr ymatebion i'r ymgynghoriadau ar dri Phapur Gwyn a'r Bil Drafft.

Roedd Comisiwn Williams yn glir bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu heriau difrifol a maith. Bydd effeithiau'r dirwasgiad a chaledi ar gyllidebau'r sector cyhoeddus yn parhau i gael eu teimlo am flynyddoedd lawer. Ar yr un pryd, mae poblogaeth Cymru'n tyfu, yn heneiddio, ac mae disgwyliadau'r cyhoedd ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn uwch nag erioed o'r blaen.

Roedd Comisiwn Williams yn glir bod perfformiad lleol yn amrywio'n fawr. Mae rhai enghreifftiau da o berfformiad, ond mae angen diwygio. Mae ymyriadau diweddar Llywodraeth Cymru, arolygiadau ac adroddiadau archwilio yn pwysleisio'r angen am newid. Mae sefydliadau llai yn wynebu fwy o her gyda mwy o gyfyngiadau ar eu gallu a'u hyblygrwydd.

Roedd Comisiwn Williams yn ystyried opsiynau polisi gydol ei adroddiad a'i argymhellion terfynol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn y rhain ar y cyfan. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n drylwyr ar opsiynau i ddiwygio llywodraeth leol ac mae ymatebion i'r ymgynghoriadau hyn wedi mynegi cefnogaeth i fwyafrif y cynigion ar y cyfan, ac maent wedi bod yn ddylanwadol o ran datblygu'r opsiynau polisi. Mae rhai o'r opsiynau a gafodd eu hystyried, ond na chafodd eu gweithredu, yn cynnwys:

- Ystod o ffurfweddau gwahanol ar gyfer uno awdurdodau lleol
- Terfynau tymor ar gyfer aelodau etholedig i awdurdodau lleol
- Codi cyfyngiadau ar swyddogion yn sefyll mewn etholiad yn eu hawdurdod lleol eu hunain.

Roedd ymgynghoriad diweddar ar y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grymuso Pobl Leol* yn cynnwys cwestiynau am effeithiau'r cynigion ar y Gymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith. Ni

wnaeth llawer o'r cyfranogwyr ymateb i'r cwestiynau hyn. Roedd y rhai a wnaeth yn dweud y byddent yn cael effaith ar y Gymraeg. Roedd ymatebion yn tueddu i naill ai awgrymu na ddylid blaenoriaethu'r Gymraeg, neu, ymhlith y rheini a ymatebodd yn gadarnhaol, y byddai'r cynigion eang am lywodraeth leol fwy agored a chynrychiadol o fudd i siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gwblhau Gweithgor *Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog*² a oedd yn ystyried y Gymraeg yng nghyd-destun llywodraeth leol. Bydd symud at fwy o waith rhanbarthol yn galluogi llawer o argymhellion yr Adroddiad i gael eu rhoi ar waith.

Mae'n werth ailddatgan sefyllfa bolisi cyffredinol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys peidio â thrin yr iaith yn llai ffafriol na'r Saesneg, a rhyddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd. Rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru, yn cynnwys llywodraeth leol, hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, a chefnogi'r rheini sydd am weithio neu gynnal eu busnes yn y Gymraeg. Trwy Fesur 2011 a'r rheoliadau cysylltiedig, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cyfres o ddyletswyddau, Safonau'r Gymraeg, ar gyfer Llywodraeth Leol. Cânt eu gorfodi gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r safonau'n berthnasol i awdurdodau lleol yn gyffredinol a hefyd i'w pwyllgorau a chydbwyllgorau; bwriad Llywodraeth Cymru yw y dylai'r safonau fod yn berthnasol i'r 'Cydbwyllgorau Llywodraethu' arfaethedig a bydd darpariaeth yn cael ei gwneud i'r perwyl hwnnw os oes angen. Bydd y safonau'n berthnasol hefyd i wasanaethau a ddarperir drwy waith rhanbarthol, ac i wasanaethau y gallant eu dirprwyo neu eu contractio allan i'r trydydd sector, y sector preifat, neu gorff cyhoeddus arall.

Os na chaiff y polisiâu a amlinellir yn y Papur Gwyn eu gweithredu, ni fydd effeithiau negyddol uniongyrchol ond ni fyddai'r cyfleoedd cadarnhaol amrywiol yn cael eu gwireddu.

A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg - iaith fyw: iaith byw?

Mae strategaeth gyfredol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg - *iaith fyw: iaith byw* – yn cael ei disodli ar hyn o bryd gan strategaeth newydd i gefnogi amcan Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae ymgynghoriad wedi'i gynnal ar ddrafft o'r strategaeth newydd ac mae crynodeb o'r ymatebion wedi'i gyhoeddi. Bydd y strategaeth derfynol yn cael ei chyhoeddi yng ngwanwyn 2017. Mae'n debygol o bwysleisio pwysigrwydd addysg a darpariaeth y blynyddoedd cynnar, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach. Bydd ffocws penodol yn ôl pob tebyg ar ddefnyddio'r iaith – yn y gymuned, wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus, ac yn y gweithle. Mae llywodraeth leol yn chwarae rôl allweddol yn y meysydd hyn i gyd. Mae'n werth nodi bod gan lywodraeth leol yng Nghymru ddyletswyddau penodol i hyrwyddo'r Gymraeg o dan y safonau, yn cynnwys gofyniad i baratoi strategaeth sy'n dangos sut mae awdurdod lleol yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd ohoni yn ei ardal, gyda thargedau ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal.

Bydd y weledigaeth a amlinellir yn y Papur Gwyn yn cynorthwyo llywodraeth leol i gyflawni ei

² <http://llyw.cymru/docs/dsilg/publications/160614-language-work-bilingual-services-cy.pdf>

hymrwymiadau i'r Gymraeg, siaradwyr Cymraeg, a chymunedau Cymraeg eu hiaith. Bydd trefniadau rhanbarthol yn cynyddu cadernid mewn llywodraeth leol, gan wella capasiti a gallu rhanbarthau gyda'i gilydd. Mae hyn yn debygol o'u cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, yn enwedig yn sgil pwysau ariannol a demograffig yn awr ac yn y dyfodol.

Bydd trefniadau gweithio'n rhanbarthol yn cynnig cyfleoedd i Awdurdodau Lleol feithrin gwasanaethau cynaliadwy. Fel rhan o hyn bydd cyfle i rannu capasiti mewn perthynas â'r Gymraeg i sicrhau bod pobl sydd am dderbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu gwneud hynny, er enghraifft, drwy gynllunio addysg yn rhanbarthol yn well. Bydd hyn yn bosibl drwy rannu staff a gweithwyr proffesiynol sy'n cynllunio a darparu gwasanaethau, a rhannu capasiti Cymraeg mewn gwasanaethau corfforaethol. Gall Awdurdodau Lleol yn gweithio gyda'i gilydd fod yn ysgogiad ar gyfer gwelliannau uchelgeisiol yn safon gwasanaethau Cymraeg.

Bydd trefniadau rhanbarthol yn rhoi cyfle hefyd i awdurdodau lleol ddod at ei gilydd i fanteisio ar dechnoleg ddigidol er mwyn gallu darparu mwy o amrywiaeth o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gwasanaethau Cymraeg yn cynnwys gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc, yn ogystal â'r seilwaith ar gyfer darparu gwasanaethau o'r fath i siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith, yn cynnwys opsiynau digidol arloesol. Bydd agweddau penodol ar y Papur Gwyn (fel y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol) yn cynorthwyo awdurdodau lleol i fod yn fwy arloesol wrth gomisiynu a chyflenwi gwasanaethau o'r fath.

Bydd trefniadau rhanbarthol yn darparu cyfle clir i ddarparu cymorth rhagweithiol a sicrhau bod Cymraeg yn cael ei defnyddio'n systematig yn yr ardaloedd maent yn eu gwasanaethu. Bydd hi'n hanfodol nad yw datblygiad 'Cydbwyllgorau Llywodraethu' yn erydu arferion cyfredol yn yr awdurdodau lleol hynny sy'n cynnal eu gweinyddiaeth fewnol yn gyfan gwbl neu i raddau helaeth yn y Gymraeg. Yn wir, beth bynnag fo'r arferion cyfredol ar draws llywodraeth leol yng Nghymru, nod Gweinidogion Cymru yw bod arferion o'r fath yn cael eu cryfhau a'u hadeiladu arnynt.

Mae'r Papur Gwyn yn debygol hefyd o gefnogi safle'r Gymraeg mewn cymunedau: nid yn unig drwy wella gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, ond drwy ei gynigion i sicrhau bod llywodraeth leol yn adlewyrchu'r gymuned mae'n ei gwasanaethu. Llywodraeth leol sy'n agosach at gymunedau – drwy Aelodau Etholedig mwy amrywiol, sydd ag awdurdodau lleol mwy agored a thryloyw ac felly'n debygol o wella gallu siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Fel cyflogwyr pwysig, mae awdurdodau lleol yn chwarae rhan bwysig yn economïau'r ardaloedd sy'n gartref i'w pencadlys a swyddfeydd eraill. Yn yr ardaloedd Cymraeg eu hiaith yng Nghymru, mae bodolaeth gweithleoedd o'r fath yn rhan bwysig o'r jig-so yn yr economi leol. Maent yn darparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg lleol aros yn eu hardaloedd lleol neu ddychwelyd iddynt - ac mae hyn yn hanfodol bwysig i gynaliadwyedd yr iaith yn y cymunedau hynny yn y dyfodol. Fel y cyfryw, byddwn yn disgwyl i benderfyniadau ynghylch rheoli'r ystadau yn y rhanbarthau i ystyried yr effeithiau posibl ar y Gymraeg yn llawn. Bydd cefnogi dull cydweithredol o arweinyddiaeth, gan wneud yr iaith Gymraeg yn rhan gadarn o'r agenda datblygu economaidd rhanbarthol yn bwysig i gadernid cymunedau lle mae'r Gymraeg yn gryf.

Yn unol ag egwyddor sybsidaredd, mae effeithiau llawn y diwygiadau hyn yn debygol o gael eu gwireddu drwy benderfyniadau a wnaed gan 'Gyd-bwyllgorau Llywodraethu' Rhanbarthol. Bydd

effeithiau'r penderfyniadau hyn yn cael eu harfarnu'n lleol maes o law, drwy'r gofyniad ar awdurdodai lleol i ystyried materion sy'n cael effaith gadarnhaol ac andwyol ar y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau (safonau 88 i 97). Cyfrifoldeb Comisiynydd y Gymraeg yw monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r safonau hyn.

Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?

h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Mae'r Gymraeg, cymunedau Cymraeg eu hiaith, a siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau lle nad Cymraeg yw'r brif iaith i gyd yn debygol o elwa ar amcanion cyffredinol y Papur Gwyn.

Mae'r diwygiadau sy'n cael eu cynnig yn y Papur Gwyn yn ceisio sicrhau bod llywodraeth leol yn fwy cadarn, effeithlon, atebol, ac yn rhannu mwy o bŵer a chyfrifoldebau gyda chymunedau. **Yn y cyd-destun hwn, mae 'cymunedau' yn cyfeirio at gymunedau o ddiddordeb yn ogystal â chymunedau lleoedd, ac felly mae'n cwmpasu siaradwyr Cymraeg ym mhob rhan o Gymru, nid dim ond y cymunedau hynny gyda'r Gymraeg fel y brif iaith.** Dylai hyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu gwasanaethu a chynrychioli'n well y rheini sy'n siarad Cymraeg a darparu gwell gwasanaethau, cyfleusterau, ac addysg yn y Gymraeg. Dylai'r cynigion hefyd wella gallu awdurdodau lleol i gefnogi diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac i gyflawni eu gofynion o dan Safonau'r Gymraeg i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, yn cynnwys yn y gweithle.

Fodd bynnag, mae cynigion penodol hefyd yn debygol o gael rhai effeithiau penodol ar y siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae crynodeb o'r rhain isod.

1. Trefniadau Rhanbarthol Awdurdodau Lleol

Bydd y trefniadau gweithio rhanbarthol yn cynnig cyfleoedd i awdurdodau lleol adeiladu gwasanaethau cynaliadwy. Fel rhan o hyn bydd cyfle i rannu capasiti'r iaith Gymraeg i sicrhau bod y rheini sydd am dderbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu gwneud hynny. Bydd hyn yn cael ei alluogi drwy rannu arbenigedd proffesiynol wrth gynllunio a chomisiynu gwasanaethau, rhannu staff sy'n darparu gwasanaethau, a rhannu capasiti Cymraeg corfforaethol (fel gwasanaethau cyfieithu). Mae potensial hefyd y gallai hyn alluogi awdurdodau lleol i ddod at ei gilydd i edrych ar sut gall technoleg ddigidol ei gwneud hi'n bosibl cyflenwi amrywiaeth ehangach o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Os bydd awdurdodau lleol yn dod at ei gilydd ar yr ôl troed datblygu economaidd i gyflenwi ystod o wasanaethau fel cynllunio defnydd tir strategol a rheoli trafndiaeth, bydd hi'n bwysig bod ystyried goblygiadau ar gyfer y Gymraeg yn rhan annatod o'r prosesau hyn. Bydd angen i awdurdodau lleol ystyried hefyd eu rôl yn y gwaith o wireddu *Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050* ar y lefel hon.

Cyhoeddwyd *Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog*³, Adroddiad y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg ym maes Llywodraeth Leol, ym mis Mehefin 2016. Bydd symud tuag at waith rhanbarthol systematig a gorfodol mewn llywodraeth leol yn golygu bod modd bwrw rhagddi â llawer o argymhellion yr Adroddiad. Er enghraifft, drwy gefnogi dull cydweithredol o arwain, bydd gwneud yr iaith Gymraeg yn

³ <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/160614-language-work-bilingual-services-cy.pdf>

rhan gadarn o'r agenda datblygu economaidd rhanbarthol yn bwysig i gadernid cymunedau lle mae'r Gymraeg yn gryf.

Efallai hefyd y bydd cyfleoedd ar gyfer gweithio ar draws olion traed rhanbarthol lle mai dyna'r dull cywir. Er enghraifft, mae Adroddiad *Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog* yn argymhell bod strategaeth ieithyddol-economaidd yn cael ei datblygu ar gyfer y siroedd Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Byddai hyblygrwydd o ran trefniadau gweithio'n rhanbarthol yn caniatáu ar gyfer dull o'r fath i gael eu hystyried.

At ei gilydd, mae Gweinidogion Cymru o'r farn y dylai cryfhau capasiti a gallu awdurdodau lleol gefnogi eu gallu i weithio'n ddwyieithog, ac i alluogi staff i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg os mai dyna yw eu dymuniad. Bydd gweithio'n rhanbarthol yn cyflwyno cyfle newydd i awdurdodau lleol rannu a chryfhau arferion gorau, a fyddai'n cael eu gwireddu yn ôl y penderfyniadau a wneir yn lleol.

2. Gwasanaethau a Rennir

Bydd y trefniadau rhanbarthol arfaethedig a amlinellir yn y Papur Gwyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried y ffordd fwyaf effeithiol y gall gwasanaethau cefn swyddfa a gweinyddol gefnogi gweithio'n rhanbarthol a chreu cyfleoedd i rannu gwasanaethau cefnogi.

Byddai trefniadau rhanbarthol yn darparu cyfleoedd da i ddatblygu gwasanaethau Cymraeg a rennir, fel gwasanaethau cyfieithu a gwell defnydd o wasanaethau digidol, fel gwasanaethau mewnrwyd, cyfieithu peirianyddol a meddalwedd ddwyieithog. Bydd cyfleoedd i rannu arbenigedd Cymraeg gwerthfawr wrth ddatblygu sefydliadau. Mae hyn yn arbennig o bwysig ym maes adnoddau dynol, er enghraifft, mewn perthynas â pholisïau AD, recriwtio, hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg, dysgu Cymraeg a chynllunio'r gweithlu.

3. Amrywiaeth Aelodau Etholedig

Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys cynigion i wella amrywiaeth Aelodau Etholedig, fel eu bod yn cynrychioli'n agosach y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae mesurau i annog hyn yn cynnwys rhoi gofyniad ar Arweinydd y cyngor i roi sylw dyledus i ganllawiau cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddewis Cabinet. Dylai hyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn adlewyrchiad mwy cywir o'u cymunedau.

4. Fframwaith ar gyfer Arweinyddiaeth Leol

Mae'r Papur Gwyn yn amlinellu ein hymrwymiad parhaus i ystod o fesurau i sicrhau bod elfen llywodraethu corfforaethol pob awdurdod lleol yn gyson gadarn.

Bydd model llywodraethu rhanbarthol yn ei gwneud hi'n ofynnol bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er lles gorau'r bobl ledled y rhanbarth, yn cynnwys penderfyniadau'n ymwneud â'r Gymraeg.

Bydd Llywodraeth Cymru'n darparu'r fframwaith y gall llywodraeth leol weithredu ynddo orau i ddiwallu anghenion unigolion a chymunedau yn awr ac yn y dyfodol. Rhaid i'r fframwaith hwn fod yn hyblyg, gan gynnig gwahanol opsiynau fel y gall llywodraeth leol weithredu mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion lleol orau. Bydd ystyriaethau'r Gymraeg yn arwyddocaol wrth wneud y penderfyniadau hyn, gan sicrhau bod anghenion siaradwyr Cymraeg a hyrwyddo'r iaith yn cael eu hystyried yn llawn

gydol y broses.

Mae'r Papur Gwyn yn parhau â'r bwriad polisi a nodir yn y Bil Drafft i gyflwyno amrywiaeth o ddarpariaethau i wella gallu awdurdod lleol i nodi a gwireddu cyfleoedd i wella. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau newydd ar hunanasesu, adolygu gan gymheiriaid, a gweithio'n agosach â chyrrff adolygu allanol. Y bwriad hefyd yw i gyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol a hefyd i weithio'n agosach gydag Awdurdodau er mwyn cefnogi gwell canlyniadau ar gyfer dinasyddion. Bydd Llywodraeth Cymru'n cadw pŵer i ymyrryd a'r gallu i gomisiynu adolygiadau annibynnol o lywodraethu a gweithredu ar ganlyniadau'r adolygiadau hynny. Dylai'r newidiadau hyn gynorthwyo awdurdodau lleol i barhau i wella'u perfformiad, sy'n golygu, er enghraifft, fod Safonau'r Gymraeg yn fwy tebygol o gael eu bodloni, a bod gwasanaethau o ansawdd yn cael eu darparu yn Gymraeg. Dylai prosesau llywodraethu corfforaethol cryfach sicrhau bod unrhyw ddiffygion yn fwy tebygol o gael eu nodi, a bod atebion effeithiol yn cael eu rhoi ar waith. Unwaith eto, gallai'r darpariaethau hyn fod yn arbennig o fanteisiol mewn ardaloedd lle nad Cymraeg yw'r brif iaith.

5. Bod yn agored, ymgysylltu a thryloywder

Mae'r Papur Gwyn yn ceisio sicrhau bod democratiaeth leol yn gryfach, yn fwy agored ac yn fwy cyfranogol. Mae'n gwneud hynny drwy amlinellu ein cefnogaeth barhaus ar gyfer dyletswydd cyfranogiad y cyhoedd ar gyfer awdurdodau lleol, a darpariaethau'n rhoi hawliau penodol i gymunedau gyfrannu at drafodaethau cynghorau, a chymryd rhan yng ngwaith llywodraethu cymunedau. O dan y ddyletswydd cyfranogiad, bydd rhaid i awdurdodau lleol nodi sut maent yn bwriadu annog pobl leol i i gymryd rhan ym mhenderfyniadau awdurdodau lleol, a sut gallant wneud sylwadau cyn ac ar ôl i benderfyniadau gael eu gwneud. Mae hyn yn debygol o wella ymgysylltiad â siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith, gan gynyddu'r tebygolrwydd bod eu hanghenion yn cael eu diwallu'n effeithiol.

Bydd yn rhoi mwy o gyfle i siaradwyr Cymraeg gyflwyno sylwadau am benderfyniadau a allai effeithio ar y Gymraeg, un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol. Yn ogystal, bydd gofyn i awdurdodau lleol ddarlledu cyfarfodydd cyngor, gan alluogi cymunedau Cymraeg eu hiaith, yng nghefn gwlad yn aml, i ddeall sut mae penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn cael eu gwneud.

6. Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys darpariaethau i ymestyn pŵer cymhwysedd cyffredinol i bob prif gyngor ac i gynghorau cymuned sy'n bodloni meini prawf penodol ac yn penderfynu eu bod yn gymwys.

O fewn cyfyngiadau penodol, mae'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn galluogi Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol a chynghorau cymuned cymwys i wneud unrhyw beth y gall unigolyn ei wneud. Mae'r pŵer wedi cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol yn Lloegr, er enghraifft, i redeg cynlluniau indemnio morgeisi i gynorthwyo pobl sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf, mewn partneriaeth â chyrrff benthycy preifat a chymdeithasau tai. Gallai'r pŵer cyffredinol gael ei ddefnyddio gan Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol i gymryd camau i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, mewn ffyrdd nad oes ganddynt yr awdurdod i'w gwneud ar hyn o bryd, ond mater i gynghorau unigol fydd penderfynu sut maent am arfer y pŵer.

Bydd y pŵer cyffredinol yn rhoi pwerau ehangach i gynghorau cymuned cymwys weithredu mewn ffyrdd newydd mewn ymateb i faterion a phryderon eu cymunedau.

Lle gellir defnyddio'r pŵer cyffredinol i ddatblygu modelau cyflenwi amgen ar ran awdurdod lleol, er enghraifft cynnwys cydweithfeydd, cwmnïau cydfuddiannol neu bartneriaid eraill, mae'n werth nodi bod y swyddogaeth ddirprwyedig yn parhau i fod yn swyddogaeth yr awdurdod lleol ac felly mae Safonau'r Gymraeg yn gymwys iddi. Er enghraifft, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn gallu cael gwasanaethau (y mae Safonau'r Gymraeg yn berthnasol iddynt) yn y Gymraeg pan mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan gorff arall ar ran yr awdurdod, a chyfrifoldeb Comisiynydd y Gymraeg yw sicrhau bod y safonau hynny'n cael eu gorfodi.

Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?

Mae unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru yn rhanddeiliaid ar gyfer y newidiadau a gynigir yn y Papur Gwyn, yn cynnwys pob siaradwr a dysgwr Cymraeg. Mae rhanddeiliaid allweddol eraill sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol yn cynnwys awdurdodau lleol, cynghorau cymuned, Aelodau Etholedig, ac uwch swyddogion.

Derbyniodd ymgynghoriadau ar y Bil Drafft a Phapurau Gwyn blaenorol ymatebion gan amrywiaeth eang o sefydliadau ac aelodau'r cyhoedd, llawer ohonynt yn Gymraeg. Roedd y dogfennau ymgynghori yn gofyn cwestiynau penodol am effaith y cynigion ar y Gymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae nifer o ddigwyddiadau wedi'u cynnal ledled Cymru hefyd a oedd yn cynnig cyfle i gyflwyno safbwyntiau yn cynnwys rhai ar effaith y cynigion ar y Gymraeg. Mae Gweinidogion Cymru a swyddogion wedi cynnal trafodaethau â Chomisiynydd y Gymraeg hefyd.

Bydd croeso unwaith eto i gyfraniadau ynghylch effaith bosibl y cynigion ar y Gymraeg yn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn hwn. Yn unol â'r safonau mae cwestiwn penodol yn y Papur Gwyn sy'n gofyn am farn ar effaith y cynigion ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg.

Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod. (Gellid defnyddio hwn yn y Tribiwnlys Iaith Gymraeg yn y dyfodol)

Amherthnasol

Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol? e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestri rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)?

Amherthnasol

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, bydd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg pellach yn cael ei gyhoeddi os caiff deddfwriaeth ei chyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn y dyfodol.

CAM 2 – NODI AC ASESU EFFEITHIAU

Crynodeb o'r Aseiad Effaith

Crynowch yr aseiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.

Effeithiau cadarnhaol:

1. Trefniadau Rhanbarthol

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig nifer o drefniadau rhanbarthol newydd, tra bod y 22 awdurdod lleol presennol yn parhau, yn amodol ar unrhyw uno gwirfoddol. Bydd yr awdurdodau lleol presennol yn parhau i fod yn destun Safonau'r Gymraeg, felly hefyd 'Cydbwyllgorau Llywodraethu'. Mae'r trefniadau rhanbarthol newydd yn cynnig cyfle i gryfhau arfer gorau a'i rannu'n ehangach ledled llywodraeth leol. Bydd llywodraeth leol fwy cadarn a gwydn yn gallu wynebu'r heriau ariannol a demograffig o'u blaenau yn well, ochr yn ochr â chyflawni eu hymrwymiadau i'r Gymraeg yn effeithiol.

SGÔR EFFAITH 9 (Effaith: 3, Tebygolrwydd: 3)

2. Uno Gwirfoddol

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig caniatáu i awdurdodau lleol presennol gyflwyno cynigion i uno'n wirfoddol. Bydd ystyriaethau'r Gymraeg yn rhan allweddol o unrhyw gynnis i uno'n wirfoddol a bydd effaith unrhyw newidiadau yn cael eu hystyried yn drylwyr. Ar hyn o bryd, nid oes modd rhagweld unrhyw achosion o uno gwirfoddol yn y dyfodol a byddai effaith unrhyw gynigion yn cael eu hystyried os caiff unrhyw gynigion eu cyflwyno.

SGÔR EFFAITH 6 (Effaith: 3, Tebygolrwydd: 2)

3. Amrywiaeth Aelodau Etholedig

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig ystod o fesurau i wella amrywiaeth Aelodau Etholedig, fel eu bod yn cynrychioli'n agosach y cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Gallai hyn wella cynrychiolaeth siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith, gydag effaith gadarnhaol ar y penderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r Gymraeg.

SGÔR EFFAITH 9 (Effaith: 3, Tebygolrwydd: 3)

4. Llywodraethu corfforaethol, perfformiad a gwelliant

Mae'r Papur Gwyn yn amlinellu ein cefnogaeth barhaus ar gyfer ystod o fesurau i wella trefniadau llywodraethu corfforaethol a pherfformiad awdurdodau lleol, gan roi awdurdodau mewn gwell sefyllfa i weithredu eu strategaethau ar hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Ystyrir y byddai creu trefniadau rhanbarthol newydd yn golygu bod modd rhannu galluoedd ac arbenigedd yn ehangach, gan greu cyfleoedd newydd i wella sut maent yn cyflawni ymrwymiadau'n ymwneud â'r Gymraeg.

SGÔR EFFAITH 9 (Effaith: 3, Tebygolrwydd: 3)

5. Gwasanaeth a Rennir

Mae'r trefniadau rhanbarthol a gynigir yn y Papur Gwyn yn rhoi cyfle amlwg i awdurdodau lleol fynd ar drywydd cyfleoedd i rannu mwy ar wasanaethau cefn swyddfa. Byddai mwy o weithio'n rhanbarthol o fudd i'r Gymraeg, gan greu cyfleoedd clir i rannu gwasanaethau cyfieithu, gwasanaethau digidol rhanbarthol, a rhannu arbenigedd corfforaethol Cymraeg gwerthfawr.

SGÔR EFFAITH 9 (Effaith 3, Tebygolrwydd 3)

6. Bod yn agored, ymgysylltu, a thryloywder

Mae'r Papur Gwyn yn ceisio darparu gweledigaeth ar gyfer llywodraeth leol sy'n sicrhau bod democratiaeth leol yn gryfach, yn fwy agored, ac yn fwy cyfranogol. Mae'n cynnig cyflwyno mesurau er mwyn bod yn fwy agored a darparu mwy o dryloywder a fyddai'n dod â Llywodraeth Leol yn agosach at ddinasyddion, yn cynnwys siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith, fel y byddai penderfyniadau yn fwy tebygol o gael eu cymryd er eu lles nhw. Byddai cymunedau yn elwa o allu cyfrannu'n fwy uniongyrchol ac yn agosach at benderfyniadau ac at ddarpariaeth gwasanaethau.

SGÔR EFFAITH 6 (Effaith: 2, Tebygolrwydd: 3)

7. Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig ymestyn pŵer cymhwysedd cyffredinol i bob awdurdod lleol ac i gynghorau cymuned arloesol, gan alluogi llywodraeth leol i gyflenwi gwasanaethau mewn modd mwy arloesol. Byddai hyn yn cynnig mwy o opsiynau ar gyfer gweithredu i hyrwyddo neu hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Lle gellid defnyddio'r pŵer cyffredinol i ddatblygu modelau cyflenwi amgen ar ran awdurdod lleol, mae Safonau'r Gymraeg yn parhau i fod yn berthnasol i'r swyddogaeth honno.

SGÔR EFFAITH 6 (Effaith: 2, Tebygolrwydd: 3)

Effeithiau negyddol:

Nod y polisiau yn y Papur Gwyn yw gwneud newidiadau cadarnhaol, sydd â'r bwriad o wella'r gwasanaethau mae awdurdodau lleol yn eu darparu i bawb yn eu cymunedau. Fodd bynnag, mae risg y gallai rhai effeithiau negyddol ddod i'r fei. Mae sawl agwedd ar ddiwylliant a hunaniaeth yn lleol yn gynhenid, â'u gwreiddiau mewn lleoedd penodol. Byddai angen i unrhyw drefniadau rhanbarthol fod yn sensitif i effaith leol iawn penderfyniadau, gan ystyried y risg y gallai penderfyniadau rhanbarthol gael effaith negyddol ar ardaloedd lleol. Hyd at y cam hwn o ddatblygu polisi, ychydig iawn o bosibiliadau sydd wedi'u nodi, ac mae effeithiau negyddol posibl yn cynnwys:

- os yw cyrff rhanbarthol mwy, newydd yn darparu gwasanaethau, gallai hyn amharu ar wasanaethau Cymraeg i ddechrau tra bod prosesau newydd yn cael eu rhoi ar waith;
- gallai darparu gwasanaethau ar raddfa arwain at anwybyddu anghenion lleol siaradwyr Cymraeg; ac
- mae gan y newid arfaethedig i lacio rheolau'n ymwneud â mynychu cyfarfodydd o bell y risg o benderfynu nad oes angen cyfleusterau cyfieithu mewn cyfarfod a fynychir o bell. Fodd bynnag, bydd awdurdodau lleol yn gorfod bodloni Safonau'r Gymraeg o hyd.

- Byddai angen ystyried lleoliad swyddi, yn cynnwys swyddi Cymraeg, yn ofalus. Mae risg y gallai trefniadau rhanbarthol newid dosbarthiad cyfredol swyddi yng Nghymru, a byddai angen ystyried effaith bosibl hyn yn llawn.

Wrth i waith datblygu polisi barhau ac wrth i gynigion gael mwy o ffocws, bydd camau pellach yn cael eu cymryd i nodi ac asesu unrhyw effeithiau negyddol posibl. Mae rhan o hyn yn cynnwys gofyn y cwestiynau canlynol fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn:

29a. *Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Papur Gwyn yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru ar effaith y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar yr asesiad hwnnw. A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol eraill sydd heb eu nodi yn yr asesiad?*

29b. *A ellid ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl?*

Mae Llywodraeth Cymru'n ceisio adborth ynghylch a yw'r holl effeithiau cadarnhaol a negyddol wedi'u nodi neu a oes effeithiau sydd heb eu cydnabod yn llawn ar hyn o bryd.

Unwaith mae cynigion polisi yn fwy penodol ac mae'r effeithiau negyddol cysylltiedig wedi'u hasesu'n llawn, bydd cynlluniau clir yn cael eu gwneud i leihau risgiau.

Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?

Mae'r holl effeithiau a nodir uchod yn rhoi cyfleoedd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:

Nid oes unrhyw ddadansoddiad pellach wedi'i gynnal ar hyn o bryd.

Bydd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg pellach yn cael ei gyhoeddi os caiff Bil Llywodraeth Leol (Cymru) ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael

Cadarnhaol:

Negyddol:

ei ddatblygu?		Niwtral: <input type="checkbox"/>
		Anhysbys: <input type="checkbox"/>
Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad	1. Dim newid sylweddol	<input checked="" type="checkbox"/>
	2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau	<input type="checkbox"/>
	3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru	<input type="checkbox"/>
	4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno	<input type="checkbox"/>
<p>Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol: Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:</p>		
<p>Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?</p>		
<p>Bydd rhanddeiliaid yn gallu nodi a thynnu sylw at effeithiau posibl y cynigion ar y Gymraeg, siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith.</p> <p>Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys y cwestiwn penodol canlynol ynghylch effaith y Gymraeg fel sy'n ofynnol gan Safonau'r Gymraeg:</p> <p><i>Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Papur Gwyn yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru ar effaith y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar yr asesiad hwnnw. A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol eraill sydd heb eu nodi yn yr asesiad? A ellid ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl?</i></p> <p>Cyn cyhoeddi'r Papur Gwyn hwn, cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu ar hyd a lled Cymru. Bydd y materion a godwyd yn y digwyddiadau hyn, ynghyd â'r holl ymatebion i'r Papur Gwyn hwn, yn rhan o'r dystiolaeth a ddefnyddir i lywio unrhyw Fil Llywodraeth Leol (Cymru) yn y dyfodol.</p>		
<p>CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO</p>		
<p>Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?</p>		
<p>Yn ystod yr ymgynghoriadau blaenorol ar Ddiwygio Llywodraeth Leol mae rhanddeiliaid Cymraeg eu hiaith wedi codi amrywiaeth o ystyriaethau. Mae'r adborth hwn wedi'i ddefnyddio i lywio a ffurfio'r papur Gwyn hwn a'n rhaglen barhaus o ddiwygio llywodraeth leol.</p>		

Bydd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg pellach yn cael ei gwblhau i gyd-fynd ag unrhyw Fil Llywodraeth Leol (Cymru) fel y'i cyflwynir i'r Cynulliad Cenedlaethol. Bydd hyn yn darparu'r cyfle i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodir yn ystod yr ymgynghoriad hwn, a bydd yn asesu effeithiau unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisi.

Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?

Bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i fonitro'n agos effeithiau'r diwygiadau arfaethedig wrth iddynt gael eu gweithredu. Bydd monitro'n digwydd fel rhan o'r rhaglen Diwygio Llywodraeth Leol ehangach, gyda mewnbwn Comisiynydd y Gymraeg a rhanddeiliaid eraill.

Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?

Adroddiadau gan Gomisiynydd y Gymraeg ar sut mae Cyd-bwyllgorau Llywodraethu Rhanbarthol awdurdodau lleol yn gweithredu Safonau'r Gymraeg, cyn ac ar ôl diwygio.

Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu defnyddiol gan Weinidogion Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid eraill i lywio eu trafodaethau parhaus, ac i wella ansawdd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg

4. Datganiad

Arweinydd polisi:

**Dileer fel y bo'n briodol:*

***Mae'r polisi hwn / Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.**

Enw:

Adran:

Dyddiad(au):
Llofnod:
Dyddiadau adolygu:

ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL	
<p>Rwyf yn fodlon bod yr Aseiad o Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.</p>	
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu